Hawdd ei Ddeall

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Faint o bobl fydd angen gwasanaethau cynghori yng Nghymru hyd at 2026

## Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall o '**Dadansoddiad o anghenion a model rhagfynegol o wasanaethau gwybodaeth a chyngor lles cymdeithasol yng Nghymru**'. Mae'r ddogfen wedi cael ei hysgrifennu gan **Alma Economics** ar gyfer **Llywodraeth Cymru**.

**Awst 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 24**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Alma Economics**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Launa Anderson:

**Ebost:** ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y llyfryn yma** ........ **4**

**Gwasanaethau cynghori** ........ **8**

**Ein hymchwil** ........ **11**

**Pa gyngor mae pobl ei angen** ........ **15**

Beth fydd ei angen hyd at 2026 ........ 22

**Geiriau anodd** ........ **24**

# Am y llyfryn yma

Rydyn ni yn gwmni o'r enw **Alma Economics**. Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** ofyn i ni wneud rhywfaint o ymchwil iddyn nhw.



Darganfod pa **wasanaethau cynghori** sydd eu hangen yng Nghymru a faint o bobl sydd eu hangen. Mae'r gwasanaethau cynghori yn rhoi cyngor i bobl am ddim am wahanol bethau mae pobl angen gwybodaeth amdanyn nhw.



Mae hyn er mwyn helpu i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau cywir yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.



Rydyn ni wedi edrych ar y math o anghenion sydd gan bobl. A pha broblemau allai fod gan bobl yn y dyfodol, i'n helpu i benderfynu ar hyn.



Fe wnaethon ni ddarganfod bod angen mawr am wasanaethau cynghori yng Nghymru.



Mae'n llawer uwch na beth mae gwasanaethau cynghori yn gallu ei roi ar hyn o bryd.



Rydyn ni hefyd yn gwybod nad ydy llawer o bobl yn cael y cyngor maen nhw ei angen.


Mae pum prif bwnc lle mae angen cyngor. Dyma nhw:




1. **Budd-daliadau Lles** – y mathau o fudd-daliadau mae rhywun yn gallu eu hawlio.




2. **Defnyddwyr a Chyllid** – mae hyn yn meddwl prynu pethau. Er enghraifft, prisiau ynni a hawliau pobl.




3. **Dyled** – mae hyn yn meddwl bod mewn dyled ariannol.




4. **Cyflogaeth** – mae hyn yn meddwl swyddi a hawliau gweithwyr.



5. **Tai a Chymdogion** – mae hyn yn meddwl pethau fel tai, digartrefedd, a materion tenantiaeth.



Rydyn ni yn credu bod pwnc arall lle mae pobl angen cyngor. Mae hyn yn ymwneud â **gwahaniaethu**. Ond, mae hyn yn fwy tebygol o godi o dan faterion cyflogaethh.



**Gwahaniaethu** ydy pan fydd pobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn wahanol. Er enghraifft, oherwydd hil, rhyw neu anabledd.

# Gwasanaethau cynghori




Mae gwasanaethau cynghori yn ffordd bwysig iawn o gefnogi pobl. Maen nhw yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth ydy eu hawliau. A gwneud y dewisiadau gorau.




Mae gan Lywodraeth Cymru ffordd o ariannu'r gwasanaethau yma. Ei enw ydy'r **Gronfa Gynghori Sengl (SAF)**.




Yn 2020 fe gafodd gwasanaethau sy'n darparu cyngor dros 8 miliwn o bunnoedd. Roedd hyn tan 2024.



Roedd hyn ar gyfer pob rhan o Gymru. Ac yn cynnwys gwasanaeth cynghori ar-lein a ffôn, yn ogystal â wyneb yn wyneb.



Mae rhai sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd. Er enghraifft, lle mae pobl yn gallu bod angen cyngor am nifer o bynciau gwahanol.



Mae'r gwaith yn cael ei gefnogi gan y **Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol**. Grŵp o bobl o wasanaethau cynghori ac ariannu sy'n gweithio gyda'i gilydd ydy hwn.



Maen nhw yn helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gweithio yn y ffyrdd gorau.



Does dim digon o ymchwil i ddangos a oes angen cyngor penodol am **wahaniaethu**.



Ond rydyn ni yn credu bod angen delio ag ef fel rhan o'r 5 pwnc arall. Oherwydd mae'n gallu codi ym mhob un o'r rhain. Ond yn fwyaf cyffredin mewn cyflogaeth.

# Ein hymchwil



Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau cynghori yn bod oherwydd eu bod yn cael eu hariannu gan lawer o wahanol ffynonellau. Efallai nad ydy hyn yn dangos beth mae pobl ei angen i gael cyngor mewn gwirionedd.




Hefyd, dydy pawb ddim yn cael y cyngor maen nhw ei angen. Neu'n gwybod eu bod nhw'n gallu gael cyngor ar bwnc.



Rydyn ni wedi rhagweld anghenion cynghori pobl drwy edrych ar y problemau mae pobl yn eu cael. Er enghraifft:

- Faint o bobl sydd mewn dyled?

- Faint o bobl sy'n poeni am golli eu swydd?



Rydyn ni wedi edrych ar lawer o wybodaeth o astudiaeth o’r enw **Deall Cymdeithas**. Roedd hwn yn edrych ar arolygon a gwybodaeth gan y boblogaeth.



Mae’r astudiaeth yn gofyn cwestiynau i bobl yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Rydyn ni’n credu bod hyn yn ffordd dda o ddysgu am y cyngor mae pobl ei angen.




Mae wedi bod yn rhedeg ers 12 mlynedd felly rydyn ni’n gallu cymharu gwybodaeth o wahanol flynyddoedd hefyd. Rydyn ni hefyd yn defnyddio gwybodaeth arall. Er enghraifft, gwybodaeth am ddigartrefedd.



Rydyn ni wedi edrych ar nifer y bobl sydd wedi ateb y cwestiynau yma ym mhob ardal ar draws Cymru.




Mae hyn wedi ein helpu i gyfrifo faint o bobl sydd angen cyngor ym mhob ardal cyngor yng Nghymru ac yng Nghymru gyfan.



Fe wnaethon ni ragweld faint o gyngor fydd pobl ei angen ym mhob maes pwnc. Ond mae'r rhain yn dibynnu ar bethau dydyn ni ddim yn gwybod amdanyn nhw eto.



Er enghraifft, os bydd cyflog pobl yn codi, maen nhw yn llai tebygol o fod angen cyngor am fudd-daliadau lles.




Neu os bydd mwy o bobl yn colli eu swyddi, fe fydd angen mwy o gyngor am gyflogaeth. Ac angen mwy o gyngor am dai.




Pethau eraill sy’n gallu cael effaith fawr ar y cyngor mae pobl ei angen ydy pan fydd prisiau ynni yn codi. Neu os bydd cyfraddau llog banc yn codi.



Mae’r rhain yn bethau dydyn ni ddim yn gwybod amdanyn nhw eto.

# Pa gyngor mae pobl ei angen




Mae’r adroddiad yma am y cyngor roedden ni yn credu **oedd ei angen** yn 2022 i 2023. Yna rydyn ni wedi defnyddio hyn a gwybodaeth arall i helpu i feddwl am ba gyngor fydd ei angen hyd at 2026.



I wneud hyn, rydyn ni wedi edrych yn ôl ar y problemau mae pobl wedi’u cael. Yna edrych ar bethau sydd yn digwydd yn y gymdeithas i weld os oes yna gysylltiad rhyngddyn nhw.



Felly, er enghraifft, pan roedd pobl yn cael codiad yn eu cyflogau roedden nhw yn llai tebygol o fod angen cyngor am fudd-daliadau lles.



Pan mae cyfraddau llog morgeisi yn uwch, mae pobl yn fwy tebygol o fod angen cyngor ar ddyledion. Oherwydd fe fydd rhai pobl yn talu mwy ar eu morgais pan fydd cyfraddau llog yn codi.



Mae cyfraddau morgais uwch hefyd yn dangos mwy o angen am gyngor ar dai.





Mae cyfraddau uwch o ddiweithdra yn dangos bod mwy o angen am gyngor cyflogaeth.



Pan fydd yr **economi** yn gwneud yn dda mae llai o angen cyngor am arian a materion eraill.

Mae'r **economi** yn meddwl faint o arian sydd gan wlad.




Ond pan mae prisiau nwy yn codi mae mwy o angen cyngor am arian a materion eraill.




Rydyn ni yn credu bod angen mwy o wasanaethau cynghori yng Nghymru na'r hyn oedd ar gael.



Fe fyddwn ni yn siarad mwy am bob pwnc nawr:

## 1. Budd-daliadau lles



Dyma’r peth mwyaf cyffredin mae pobl yn gofyn am gyngor amdano.



Rydyn ni yn credu y byddai dros 1 o bob 10 o bobl wedi gweld y cyngor hwn yn ddefnyddiol yn 2022 i 2023.



Mae gan ardaloedd sy’n dlotach angen uwch am y math yma o gyngor. Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot oedd yr ardaloedd oedd angen y cyngor mwyaf.

## 2.Defnyddwyr a Chyllid




Dyma'r ail fater mwyaf o angen.



Rydyn ni yn  credu y byddai tua 7 o bob 100 wedi cael y cyngor yma yn ddefnyddiol yn 2022 i 2023.



Enghreifftiau o'r materion yma fyddai ynni, pensiynau, yswiriant a materion eraill.



Conwy a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r nifer fwyaf o broblemau yn yr ardal yma. Mae hyn yn gwneud synnwyr gan mai yn yr ardaloedd yma roedd y gwariant uchaf ar danwydd hefyd.

## 3.Dyled



Mae hwn yn rheswm cyffredin dros fod angen gwasanaethau cynghori.



Yn y rhan fwyaf o ardaloedd cynghorau lleol fe fyddai  tua 5 o bob 100 wedi cael y cyngor yma yn ddefnyddiol yn 2022 i 2023.

## 4.Cyflogaeth



Rydyn ni yn credu y byddai tua 5 o bob 100 o bobl yng Nghymru wedi cael y cyngor yma yn ddefnyddiol yn 2022 i 2023.




Mae'r rhain yn gallu bod am bethau fel amodau gwaith, hawliau a llawer o bethau eraill sy'n ymwneud â chyflogaeth.



Sir Fynwy a Merthyr Tudful oedd angen y cyngor mwyaf am gyflogaeth. Mae hyn yn gallu bod oherwydd sicrwydd swydd a pha mor hapus ydy pobl yn eu swyddi.

## 5.Materion tai a chymdogion



Rydyn ni yn credu bod tua 6 o bob 100 o bobl yng Nghymru wedi bod angen cyngor am broblemau tai a chymdogion yn 2022 i 2023.




Er enghraifft, cymorth gyda thai cymdeithasol neu rentu'n breifat.



Caerdydd sydd â'r lefel uchaf o angen. Mae hyn yn gwneud synnwyr gan fod y lefel uchaf o ddigartrefedd hefyd yma.


# Beth fydd ei angen hyd at 2026




Rydyn ni wedi edrych ar y gwasanaethau cynghori rydyn ni'n credu fydd eu hangen hyd at 2026.




Rydyn ni yn credu y bydd anghenion yn aros tua'r un peth mewn budd-daliadau lles a chyflogaeth.



Rydyn ni yn credu y bydd angen i gyngor ar y materion eraill i gyd gynyddu.




Os bydd prisiau nwy yn cynyddu a chyflogau'n aros yr un peth, fe fydd mwy o angen cyngor ar ddefnyddwyr a chyllid.



Fe fydd cyfraddau morgeisi uwch yn meddwl bod angen cyngor ar fwy o bobl am ddyledion a thai.



Rydyn ni yn credu y bydd anghenion cyngor cyflogaeth yn aros tua'r un peth.



Ond fe fydd yr holl faterion yma yn cael eu heffeithio gan bethau sy'n digwydd yn y gymdeithas, fel rydyn ni wedi sôn amdano. Mae'n rhaid i ni gofio bod pethau yn gallu newid.



Rydyn ni hefyd yn credu y bydd pobl angen cyngor am fwy nag un pwnc ar yr un pryd.

# Geiriau anodd

### Economi

Mae'r economi yn meddwl faint o arian sydd gan wlad.

### Gwahaniaethu

Dyma pryd mae pobl yn cael eu trin yn annheg oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn wahanol. Er enghraifft, oherwydd hil, rhyw neu anabledd.